**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth o Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu**
**Ionawr 2011**

---

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod chwarae yn werthfawr iawn a'i fod yn bwysig i fywydau plant yn ein cymdeithas. Credwn fod gan blant hawl sylfaenol i allu chwarae, a'i fod yn rhan hanfodol o'u datblygiad deallusol; corfforol; cymdeithasol ac emosiynol. Cefnogir y farn hon yn gryf gan dystiolaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) yn llawn i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae erthyglau 15 a 31 o'r Confensiwn yn nodi'n glir yr hawl i chwarae a chymdeithasu ac mae llawer o'r erthyglau'n ymwneud â diogelwch. Mae saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd yn nodi pwysigrwydd mannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Bolisi Chwarae yn 2002 a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chware yn 2006 ac mae'r rhain wedi'u hatgyfnerthu gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a gafodd ei ddeddfu'n ddiweddar, sy'n cynnwys pennod ar chwarae. Bydd y Mesur yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant yn eu hardaloedd, cyhyd ag y bo’n rhesymol ymarferol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio Rheoliadau a dogfennau cysylltiedig i Awdurdodau Lleol i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y dogfennau hyn yn cwmpasu darpariaeth chwarae benodol a ffyrdd o greu cymunedau sy'n ystyriol o blant a chwarae.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a chynllun cyflawni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol drwy ddysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol. Bydd y Strategaeth hefyd yn cyfrannu at yr agenda o ran sicrhau y gall plant a phobl ifanc fwynhau eu hamser hamdden a chymdeithasu'n ddiogel.

Mae cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu'n rhan o agenda Llywodraeth y Cynulliad i greu cymdeithas sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc. Er mwyn cyflawni hyn, cydnabyddwn y bydd angen ymgorffori'r diben hwn a'r gwaith o'i gyflawni ar draws maes polisi eang. Cydnabyddwn y bydd yn rhaid i hyn gwmpasu pob agwedd ar ein gwaith o ddatblygu polisi sy'n ymwneud â materion plant yn benodol a hefyd unrhyw feysydd polisi sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio; dylunio a defnyddio gofod; trafnidiaeth; ac agweddau a chyfleusterau yn y gymuned. Cydnabyddwn hefyd, i'r perwyl hwn, fod yn rhaid i ni weithio i greu cymdeithas lle bo Awdurdodau Lleol; Awdurdodau eraill a rhanddeiliaid yn gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc a sicrhau y caiff y gwaith hwn ei lywio gan farn a chyfranogiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn unol ag Erthygl 12 o'r Confensiwn a Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi cyfredol ac mae'r gwaith o gyflawni llawer ohonynt eisoes yn mynd rhagddo. Isod, rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

**Argymhelliad 1.** The Committee urges the Welsh Government to complete its review of the standards and guidance for play at the earliest opportunity in order to enable local authorities to assess the sufficiency of their current play provision and make robust plans for future provision. The Guidance should include a clear definition of “play” that includes both structured and free play, as described in paragraph 25 of this report. (Tudalen 20)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n datblygu Rheoliadau a dogfennaeth gysylltiedig, yn yr achos hwn, i alluogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i asesu a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant yn eu hardaloedd, cyhyd ag y bo’n rhesymol ymarferol. Mae'r llif gwaith hwn, yn y lle cyntaf, yn cynnwys gwaith ymgynghori ac ymgysylltu trawsadrannol â'r holl randdeiliaid perthnasol (gan gynnwys plant a phobl ifanc). Bydd hyn yn arwain wedyn at baratoi dogfennaeth fanwl yr ymgynghorir yn ffurfiol arni. Bydd yr Adroddiad a lunnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr Ymchwiliad a'r dystiolaeth a gyflwynir gan sefydliadau â diddordeb yn llywio'r gwaith hwn.

Rhoddir mwy o eglurder am ystyr 'chwarae' a bydd y term yn ddigon eang i gynnwys chwarae 'strwythuredig' a 'rhydd'. Disgwylir hefyd y bydd y ddogfennaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgorffori'r prosesau ar gyfer creu amgylchedd sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc yn eu hagendâu polisi a chyflawni, a fydd yn gyson â sawl un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 2.** The Welsh Government should carry out a short and focused review of the play policy implementation plan involving external stakeholders which should be completed before the next election. The results of the review should record progress to date and make recommendations to the Deputy Minister that will assist him to refocus the plan on those areas that are still valid in light of the recent legislation and a greater than ever need to prioritise public service delivery. (Tudalen 21)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu Adolygu'r Camau Gweithredu a nodir yng Nghynllun Cyflawni'r Polisi Chware a defnyddio'r Adolygiad hwn i lywio'r broses o ddatblygu'r dogfennau perthnasol i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae. Bydd rhanddeiliaid allanol yn rhan o'r Adolygiad a disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn yr etholiad nesaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 3.** The Committee recommends that revised guidance is issued in relation to the Children and Young People partnerships by the Welsh Government which re-states the pivotal role of the partnerships in developing strategic approaches and supporting the delivery of play and leisure provision. The guidance should require all local authority departments and relevant agencies to fully demonstrate their engagement with the partnership process. (Tudalen 25)

**Ymateb: Derbyn**
Cafwyd proses ymgynghori yn ddiweddar ar Ganllawiau Dros Dro drafft y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ac unwaith y bydd yr holl ymatebion wedi'u hystyried bwriedir cyhoeddi canllawiau diwygiedig terfynol i ategu'r gwaith o baratoi'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn ystod y cyfnod rhwng 2011 a 2014.

Bydd y canllawiau hyn yn ategu canllawiau cynllunio presennol ar gyfer y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc sy'n cynnwys 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau, (2007)'. Mae'r dogfennau hyn yn seiliedig ar y saith nod craidd sy'n cyfleu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) at ddibenion cynllunio a darparu gwasanaethau.

Yn unol ag Argymhelliad 3, mae Nod Craidd 4 yn nodi y dylid sicrhau bod gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol ar gael i blant. Mae 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' yn nodi'n glir y dylai "*awdurdodau lleol gynllunio gyda'u partneriaid i ddarparu neu sicrhau cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc."*

Diben un o'r 13 Nod Eang a geir yn y Ddyletswydd Tlodi Plant yw:
"Lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant)". Nodir hefyd ofynion y Ddyletswydd Tlodi Plant a sut y byddant yn cael eu bodloni fel rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Caiff gwaith gan bartneriaethau ei fonitro drwy arolygiadau ar y cyd a gynhelir gan Weinidogion Cymru (drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) ac Estyn sy'n canolbwyntio nid yn unig ar ba mor dda y mae partneriaethau'n gweithio ond yn edrych hefyd ar y canlyniadau a gyflawnir gan bartneriaid.

**Goblygiadau Ariannol:**
Bydd Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ledled Cymru yn cael cyfanswm o £5.5 miliwn (£250 k fesul awdurdod lleol) i gefnogi a datblygu rôl y Bartneriaeth i sicrhau bod pob partner yn chwarae rhan lawn yn y dull gweithredu hwn.

**Argymhelliad 4.** In light of the evidence that demonstrates a higher incidence of injury and death as a result of road traffic accidents for children living in a deprived area, the Committee recommends that the Welsh Government should refocus their efforts to address child pedestrian injuries in the most deprived areas of Wales. This should achieve an improvement in indicators 15 and 16 of the Welsh Government Child Poverty Milestones and Targets in respect of pedestrian injuries for 5-14 year olds. (Tudalen 30)

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i fynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau anafiadau a marwolaethau sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol neu lle ceir problem ar gyfer grwpiau penodol sy'n agored i niwed.

Caiff polisïau diogelwch plant ar y ffyrdd eu gweithredu'n bennaf gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill gan ddefnyddio cymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn benodol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu harian grant i roi cynlluniau a phrosiectau ar waith sy'n helpu diogelwch plant ar y ffyrdd ac yn blaenoriaethu gwariant mewn ardaloedd lle ceir y nifer fwyaf o anafiadau e.e. ardaloedd difreintiedig. Rydym yn mynd ati i annog awdurdodau lleol i greu mwy o barthau a therfynau 20 mya a darparu llwybrau cerdded a beicio diogel mewn cymunedau. Yn ogystal, rydym yn ariannu Cydgysylltydd Hyfforddi Cerddwyr Ifanc ym mhob un o'r awdurdodau lleol i roi hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd ymarferol i blant gyda phwyslais ar y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 5.** The Committee recommends that the Welsh Government should ensure that road safety is included in the Welsh curriculum. (Tudalen 30)

**Ymateb: Derbyn.**
Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, yn arbennig addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), yn rhoi cyfleoedd i addysgu am bob agwedd ar ddiogelwch personol. Byddwn yn annog ysgolion i addysgu diogelwch ar y ffyrdd drwy'r wefan sy'n rhoi canllawiau ar ABCh.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 6.** The Committee recommends that the Children and Young People Partnerships take a greater and more consistent role in driving forward the needs of and engagement of children and young people in the planning process. Planning departments should work with the partnerships to develop practical ways they can ensure that the needs of children and young people to have safe places to play and hang out are given appropriate weighting within the planning

processes and decisions. The Committee further recommends that the Partnership Support Unit, which supports CYP Partnerships, gathers together examples of good practice in planning participation and disseminated that information to all partnerships in a meaningful way. (Tudalen 35)

**Ymateb: Derbyn**
Yn debyg i'r hyn a nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 3 mae'r canllawiau, 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' yn cynnwys manylion o dan Nod Craidd 5 ynghylch Cymryd Rhan Mewn Gwneud Penderfyniadau. Yn adran 8 o'r ddogfen mae'n nodi y dylai *"Partneriaethau sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn natblygiad, cynllunio a gwerthuso gwasanaethau sy'n effeithio arnynt".*

Mae cyfrifoldeb ar bob Adran o fewn Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau ar eu cyfer neu eu darparu. Nid yw'r disgwyliad hwn yn wahanol i'r amrywiaeth o bartneriaid eraill sy'n cyflawni amrywiaeth o weithgareddau/ gwasanaethau o ran plant a phobl ifanc. Caiff y disgwyliad y dylai Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ddatblygu hyn ei atgyfnerthu yn y canllawiau diwygiedig.

Ar ôl penderfynu ar y protocol mwyaf priodol i bennu'r arfer gorau, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi enghreifftiau o arfer gorau ar ei gwefan i sicrhau bod pob partneriaeth a phartner yn ymwybodol o'r rhain.

Cynhelir gwaith ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys â phlant, fel rhan o'r broses gynllunio. Er enghraifft, wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) dylai awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer cynnwys aelodau o'r cyhoedd, cynghorau cymuned, cyrff gwirfoddol, y gymuned fusnes a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill. Dylai gwaith o'r fath helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau rhywfaint o gonsensws o ran datblygu a defnyddio tir yn eu hardaloedd yn y dyfodol.

Dylai CDLlau a phenderfyniadau dilynol ar geisiadau cynllunio ystyried materion cymdeithasol sy'n berthnasol i ddefnyddio a datblygu y tir, gan gynnwys yr effaith y mae polisïau a chynigion yn debygol o'i chael ar y gymuned gyfan gan gynnwys plant a theuluoedd. Dylai CDLlau wneud darpariaeth fel y bo'n briodol ar gyfer tir ar gyfer, ymysg pethau eraill, ysgolion, addysg bellach ac uwch, mannau addoli, hamdden a chyfleusterau cymunedol eraill.

**Goblygiadau Ariannol**:
Ariennir arfer gorau gan APADGOS. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol eraill.

**Argymhelliad 7.** Guidance issued as a result of the Children and Families (Wales) Measure (2010) should include a good practice guide to consultation which sets out the need to give consultees the full facts available, including budgetary information, and the need to inform consultees of any decisions made in light of the consultation and the reasons for those decisions. (Tudalen 35)

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn sicrhau bod y canllawiau Plant a Phobl Ifanc yn cyfeirio at y canllaw arfer da y byddwn yn ei ddatblygu er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn argymhelliad 6.
Cyhoeddwyd Canllawiau Cynghori ar Gyfranogiad Lleol ym mis Awst 2007 ac maent yn cyfeirio at ganllawiau Blast Off i helpu ymarferwyr wrth iddynt ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau arfer da hyn yn rhoi gwybodaeth am sut i roi adborth i ymgynghoreion i ddangos sut mae eu cyfraniad wedi llywio'r ymgynghoriad a'r broses gwneud penderfyniadau. Cafodd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc eu cymeradwyo a'u lansio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2007 ac maent yn nodi safon ofynnol ar sut y dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd y dulliau hyn o arfer da yn rhan o'r canllawiau statudol arfaethedig ar Gyfranogiad yn Lleol ac yn Genedlaethol.

Rwyf yn awyddus i gymryd camau a fydd yn gwella tryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, a pharhau i gyflawni ein hymrwymiadau iddo fel rhan o roi'r Confensiwn ar waith. Ymhen amser, bydd canllawiau ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol hefyd yn nodi ac yn annog y defnydd o arfer gorau o ran cyllidebu cyfranogol, gan ddangos hefyd y manteision posibl yn sgîl gwneud hyn fel rhan o'r broses gynllunio.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 8.** The Committee recommends that statutory guidance relating to the Children and Families (Wales) Measure 2010 stipulate that the participation of children and young people in the decision making processes should take place across a wide range of local government departments. Participation should not be restricted to those departments overtly concerned with children and young people, for example; education and social services, but should also take place in, for example; planning, transport and housing. In order to enable children and young people to participate in a meaningful way, guidance should require local authorities to support capacity building for young people. Such support work should extend beyond youth forums to encourage local authorities to engage with as wide a range of children and young people as is possible. (Tudalen 37)

**Ymateb: Derbyn**
Fel y nodwyd yn flaenorol, mae awdurdodau lleol yn eu cyfanrwydd yn bartner yn y bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac felly dylid ymgorffori arfer da ym mhob adran o awdurdodau lleol. Yn benodol, byddwn yn ceisio i nodi enghreifftiau yn y canllaw arfer da o ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn draddodiadol.

Yn seiliedig ar Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rydym yn cynnig gwneud y Canllawiau Cynghori ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn statudol. Bydd y canllawiau hyn yn cefnogi cyfranogiad mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi ac yn sicrhau y caiff cyfranogi ei brif ffrydio i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

Mae'r Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ynghylch gwaredu tir sy'n cynnwys neu'n rhan o gaeau chwarae, bellach wedi'i ddeddfu.

**Goblygiadau Ariannol:**
Pe cyflwynid gofynion newydd o ran cyfranogi yn gysylltiedig â gwaredu tir drwy ddarpariaethau statudol, byddai goblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 9.** The Committee recommends that the Welsh Government should amend Planning Policy Wales 3 and the supporting Technical Advice Notes 12 (Design) and 18 (Transport) to make it a more explicit requirement for the guidance about play provision in the “Manual for Street” to be used as an inherent part of any design for communities. (Tudalen 39)

**Ymateb: Cwblhawyd**

Mae fframwaith polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ddiweddaru'n sylweddol. Er enghraifft, cafodd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 ar Ddylunio a TAN 16 ar Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored eu diweddaru a'u cyhoeddi yn 2009, wedi'u llywio gan fewnbwn cyrff allweddol gan gynnwys Chwarae Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru. Caiff y Llawlyfr Strydoedd, sef dogfen gan y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant, ei argymell eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyfeirir ato mewn dogfennau priodol, gan gynnwys TAN 18, Trafnidiaeth. Yn ogystal â hynny, er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd agenda'r Llawlyfr Strydoedd, rhoddwyd hyfforddiant i swyddogion cynllunio a thrafnidiaeth awdurdodau lleol ledled Cymru y llynedd, wedi'i ariannu gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth y Cynulliad.

Mae TAN 16 yn amlinellu sut y disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol fodloni gofynion polisi. Anogir awdurdodau i gynnal Asesiad Mannau Agored fel tystiolaeth i ategu’r polisïau yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid defnyddio'r fframwaith polisi hwn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a gall hefyd lywio polisi cyffredinol yr awdurdod ar 'Gytundebau Adran 106', a ddefnyddir o dan rai amgylchiadau i sicrhau seilwaith cymunedol ochr yn ochr â datblygiadau newydd. Mae TAN 16 yn atgoffa awdurdodau cynllunio lleol o'r angen i gadw defnydd hamdden o dir mewn lleoliadau trefol mewn cof, ac i gynllunio ar gyfer y rhain o'r cychwyn wrth ystyried datblygiadau newydd.

I grynhoi, mae polisi cynllunio cenedlaethol cynhwysfawr ar waith ac mae eisoes yn mynd i'r afael ag argymhelliad y Pwyllgor. Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio lleol yw

rhoi'r polisïau ar waith wrth baratoi eu cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae angen amser er mwyn i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud y gwaith angenrheidiol ac er mwyn i'r newidiadau ymsefydlu.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 10.** The Committee recommends that where, for financial reasons, local authorities are targeting the use of street lighting; routes to play areas should be prioritised. Furthermore, the Committee recommends that lighting systems are built in to plans for play facilities, particularly for facilities aimed at older children and young people for whom it would be entirely reasonable to be out after dark. (Tudalen 41)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am oleuadau stryd sy'n bodoli eisoes ar gefnffyrdd sy'n mynd drwy drefi a phentrefi ledled Cymru. Mae llawer o fanteision a ddaw yn sgîl darparu a gweithredu goleuadau ffyrdd priodol mewn cyflwr da ar ein rhwydwaith ffyrdd. Er mai prif ddiben ein goleuadau stryd yw lleihau damweiniau anaf personol i'r cyhoedd sy'n teithio ar ein priffyrdd yn ystod y nos, a sicrhau bod traffig yn llifo'n rhydd ar ein ffyrdd, rydym hefyd o'r farn bod trigolion mewn trefi a phentrefi gwledig yn wynebu llai o droseddau ar y stryd a llai o ofn troseddau ar y stryd mewn mannau lle ceir goleuadau stryd.

Felly gall goleuadau stryd wella diogelwch plant a phobl ifanc oherwydd y byddant yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt ddefnyddio troedffordd neu lwybr i gerdded i fan diogel i chwarae neu gymdeithasu gyda'r nos, neu feicio yno. Felly mae goleuadau da yn ategu ein polisi trafnidiaeth gynaliadwy drwy sicrhau y darperir llwybrau diogel ar gyfer beicio neu gerdded i leoliad. Yn ogystal â hynny, mewn rhai ardaloedd trefol, gallai ein goleuadau stryd helpu awdurdodau lleol i wneud defnydd effeithiol yn ystod y nos o systemau teledu cylch cyfyng a leolir mewn trefi a phentrefi.
Fodd bynnag, dim ond ar y rhwydwaith cefnffyrdd ei hun y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu goleuadau stryd ar hyn o bryd. Y 22 o awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am unrhyw ffyrdd ymyl, a hwy a fyddai'n gyfrifol am barhau â chynllun goleuo i ddarparu llwybr diogel yn ystod y nos i faes neu gyfleuster chwarae, ac yn y cyfleuster ei hun. Nid oes dyletswydd or-redol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu systemau goleuadau ffyrdd na'u goleuo er mwyn atal troseddau nac i ddarparu llwybrau diogel i gyfleusterau chwarae. Mae llawer o drefi a phentrefi ar hyd cefnffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru lle nad oes system goleuadau stryd gan fod yr achos diogelwch wedi profi nad oes angen darparu goleuadau am fod lefel y traffig yn isel a bod nifer fach o ddamweiniau yn ystod y nos. Yn yr achos hwn, rydym yn ymwybodol bod llawer o'r awdurdodau lleol neu'r cynghorau tref yn darparu eu cynlluniau goleuadau cymunedol eu hun sy'n cefnogi'r gwaith o gynnig llwybrau cerdded diogel i gyfleusterau yn yr ardal honno.

Yn ystod y broses o ddatblygu'r ddogfennaeth ar y ddyletswydd digonolrwydd chwarae, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymchwilio i ddichonoldeb cynnwys gofyniad ar gyfer ymgorffori goleuadau mewn cynlluniau ar gyfer cyfleusterau chwarae.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 11.** The Committee recommends that local authorities maintain dialogue with children and young people in order to monitor issues of cleanliness

and good order and focus cleaning and maintenance resources on problem areas. (Tudalen 42)

**Ymateb: Derbyn**
Ategir yr argymhelliad hwn drwy gyflwyno Canllawiau Statudol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.  Gweler Argymhelliad 8.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 12.** The Committee recommends that the Welsh Government develop a set of health and safety guidelines for play settings that allow for adventurous play. These should be developed in consultation with play providers, children and young people and other stakeholders. (Tudalen 44)

**Ymateb: Derbyn.**
Bwriedir cynnwys canllawiau ar iechyd a diogelwch ar gyfer lleoliadau chwarae yn y ddogfennaeth gyhoeddedig.  Bydd y rhain yn cwmpasu canllawiau ar asesiadau o fanteision risgiau sy'n caniatáu chwarae anturus ac y gellid eu datblygu gydag ac at ddefnydd holl randdeiliaid y sector chwarae.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 13.** The Committee recommends that the Welsh Government works with other stakeholders to review the benefits of launching a new campaign to help children and parents manage risks, identify potentially dangerous situations and know how to keep themselves safe both in and out of the home without unnecessarily curtailing the freedom and experiences of children and young people. (Tudalen 46)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.**
Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth ddatblygu'r canllawiau ar iechyd a diogelwch ac asesiadau o fanteision risgiau, yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ystyried a datblygu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod rhieni a'r gymuned ehangach yn deall y materion o ran rheoli risg heb gyfyngu ar ryddid a phrofiadau plant a phobl ifanc.

Bydd y Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi canllawiau i'r sector gwaith ieuenctid ar ddatblygu methodoleg gwaith ieuenctid eang a blaengar sy'n darparu mannau diogel lle y gall pobl ifanc gymryd rhan mewn dysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd

**Argymhelliad 14.** The Welsh Government should ensure its intergenerational work is undertaken cross-departmentally to ensure input from relevant children and young people policy work as well as older people policy development. (Tudalen 49)

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a chynllun cyflawni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol drwy ddysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol. Byddwn yn cynnwys Gwaith Pontio'r Cenedlaethau yn y strategaeth ac yn ymgynghori â'r sector gwaith ieuenctid a gynhelir a gwirfoddol i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan.

Mae'r Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau a oedd yn ymrwymiad ar Gam 2 o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn lleol. Bellach, mae gan y bartneriaeth a sefydlwyd y llynedd rhwng Sefydliad Beth Johnson a Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn brosiectau ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cynhaliwyd dwy gynhadledd lwyddiannus ym mis Tachwedd 2010 a ymgysylltodd â nifer o bartneriaid yn lleol gan gynnwys cydgysylltwyr y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, cydgysylltwyr partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a gweithwyr Datblygu Cymunedau yn Gyntaf. O ganlyniad i'r ddau ddigwyddiad hyn sicrhawyd ymrwymiadau yn lleol i chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio a gwnaethant hefyd feithrin cydberthynas waith gynhyrchiol â'r Comisiynydd Plant.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim ar hyn o bryd

**Argymhelliad 15.** The Committee recommends that the Welsh Government reviews how intergenerational work can be embedded into the school curriculum in order to maximise the interaction between generations in a positive way. (Tudalen 54)

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn nodi cyfleoedd dysgu o fewn Gorchmynion Pwnc a fframweithiau'r cwricwlwm cyfredol i hyrwyddo dealltwriaeth rhwng cenedlaethau. Drwy drefniadau monitro'r cwricwlwm byddwn yn ystyried sut y darperir gwaith pontio'r cenedlaethau ar hyn o bryd a sut y gellid ymgorffori dulliau gweithredu effeithiol ymhellach yn y cwricwlwm ysgol.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 16.** The Committee recommends that the Welsh Government hosts four regional media summits which should aim to dispel the media myths surrounding children and young people and should demonstrate the negative

impact for the whole community of negative news stories regarding children and young people. The Committee further recommends that the Welsh Government holds discussions with the UK Government to explore the benefits of holding similar press summits on a UK wide basis. (Tudalen 54)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Wrth ymdrin ag argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig i gymryd camau ar frys i fynd i'r afael ag anoddefgarwch tuag at blant a phortread amhriodol ohonynt, o fewn cymdeithas yn arbennig, gan gynnwys y cyfryngau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd nifer o gamau. Gyda phartneriaid, rydym wedi datblygu 'Cynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn'. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth 13, sef "gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu/anghydraddoldeb yn erbyn plant a phobl ifanc" drwy hyrwyddo delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc a chreu ymgyrch i hyrwyddo delweddau cadarnhaol a pharhau i dynnu sylw at lwyddiannau plant a phobl ifanc a'u dathlu. Cynhaliwyd sawl digwyddiad i ddechrau datblygu'r gwaith hwn gan gynnwys lansio canllaw newydd ar y cyfryngau, sef "Dwedwch hi fel y mae".

Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi bod yn cyflawni gwaith fel rhan o'r rhaglen hon i ddatblygu canllawiau i'r cyfryngau/canllawiau ar gyflwyno adroddiadau ar blant a phobl ifanc yn y cyfryngau. Targedir hyn yn fwy at y cyfryngau a'r nod yw dylanwadu ar y ffordd y maent yn adrodd newyddion.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio ar y mater hwn gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn y DU fel y nodwyd yn "Working Together, Achieving More". Mewn cyfarfod o'r Gweinidogion a oedd yn cynrychioli'r pedair gweinyddiaeth ym mis Mehefin 2009 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, cytunwyd i gydweithio er mwyn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r portread negyddol o blant a phobl ifanc yn y cyfryngau, gan gynnwys lansio strategaeth gyfathrebu ragweithiol wedi'i thargedu. Bwriedir cynnal trafodaethau pellach yn 2011.

Mae'r Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid Blynyddol a gynhelir ar ddiwedd mis Mawrth yn gyfle i ddathlu cyflawniadau Gweithwyr Ieuenctid Unigol; Prosiectau Gwaith Ieuenctid; a Phobl Ifanc. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl gwahodd cynrychiolwyr o'r wasg, ynghyd â chael sylw yn y wasg leol a'r wasg genedlaethol drwy amrywiaeth o brosesau yn y cyfryngau. Defnyddir tudalen Gorwelion Llywodraeth y Cynulliad hefyd i dynnu sylw at weithgaredd sy'n ymwneud â Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2011. Mae Wythnos Gwaith Ieuenctid, a gynhelir yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd, yn cynnwys cynnal dros 300 o ddigwyddiadau arbennig sy'n canolbwyntio ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hyn yn denu sylw sylweddol yn y cyfryngau drwy radio ac erthyglau mewn papurau newydd. Disgwylir y caiff gweithgaredd a gyflawnwyd yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid 2010 ei ddatblygu ymhellach yn 2011 i gynnwys darllediadau teledu.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim; caiff y darpariaethau a nodir uchod eisoes eu hariannu o dan wariant presennol a gwariant arfaethedig yn y dyfodol o dan Ymestyn Hawliau. Byddai costau pellach ynghlwm wrth gynadleddau eraill neu ragor o sylw yn y cyfryngau.

**Argymhelliad 17.** The Committee recommends that the Welsh Government carries out a focused review into approaches and methods that could be implemented to reduce the instance of out of school bullying, and to support victims of such bullying. Such a review should pay particular regard to the issue of disabled children and young people as victims of bullying. The Committee also calls on the Welsh Government to confirm the timescale for issuing its anti-bullying guidance, which was due to be published in December 2009. (Tudalen 58)

**Ymateb: Derbyn**
Nid yw Lywodraeth Cynulliad Cymru yn goddef bwlio mewn unrhyw sefyllfa a byddai'n awyddus i sicrhau bod ei pholisïau a'i chynlluniau cyflawni yn annog parch at eraill ac yn her gref i fwlio neu ymddygiad gwahaniaethol lle bynnag y bo hynny'n digwydd. Mae mynd i'r afael â bwlio yn flaenoriaeth a byddwn yn gwneud rhagor o waith i ddatblygu ein dull o ymdrin â'r mater hwn. Byddwn yn gweithredu ar yr argymhelliad hwn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein dull cyfannol o fynd i'r afael â bwlio ym mhob rhan o fywydau plant a phobl ifanc.

Rydym eisoes wedi gwneud llawer o waith i ddatblygu polisïau a chyfarwyddyd ymarfer i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Mae'r canllawiau Parchu Eraill a gyhoeddwyd yn 2003 yn cael eu datblygu ymhellach gyda chyfres newydd o ganllawiau i ysgolion sy'n cynnwys canllawiau gwrth-fwlio a gwrth-wahaniaethu penodol a manwl, gan gynnwys agweddau ac ymddygiad tuag at blant a phobl ifanc anabl. Disgwylir y caiff y rhain eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 18.** The Committee recommends that the Welsh Government issues guidance to local authorities to ensure that they provide supervised play opportunities for children and young people in a variety of settings. Consideration should also be given to the training of play supervisors to eliminate any misinterpretation of reflective practice that may result in a lack of action against bullying in a play setting. (Tudalen 58)

**Ymateb: Derbyn.**
Disgwylir i'r Safonau a'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar asesu a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant a phobl ifanc gynnwys adran ar gyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth mewn amrywiaeth o leoliadau, ac ar ddatblygu'r gweithlu chwarae. Bydd trafodaethau gyda SkillsActive; yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu; darparwyr hyfforddiant gwaith chwarae a rhanddeiliaid eraill, yn ymchwilio

i hyfforddiant a rôl y Gweithiwr Chwarae o ran dynameg grŵp ymhlith plant ac ymyrryd i fynd i'r afael ag ymddygiad bwlio**.**

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 19.** The Committee recommends that the Welsh Government prioritises the provision of concessionary fares on public transport for 16 – 18 year olds to enable them to access leisure and recreational facilities as well as educational and training opportunities in their wider locality. (Tudalen 61)

**Ymateb: Gwrthod**
Treialodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun teithio am hanner pris i bobl ifanc 16-18 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Gogledd-ddwyrain Cymru. Croesawyd y cynllun gan bawb a gymerodd ran. Fodd bynnag, ni ellir fforddio'r gost o gyflwyno'r cynllun ledled Cymru yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Ein blaenoriaeth yw cynnal y cynllun presennol i bobl dros 60 oed a'r rhai sy'n anabl.

Mae cerdyn rheilffordd pobl ifanc 16-25 oed yn rhoi gostyngiad o draean ar docynnau trên ledled Prydain Fawr. Mae Trenau Arriva Cymru hefyd yn rhedeg cynllun Cerdyn Rheilffyrdd i Fyfyrwyr ar gyfer llwybrau lleol y Cymoedd a Chaerdydd. Mae hyn rhoi gostyngiad o 26% ar docynnau dydd a 10% ar docynnau tymor i ddeiliad y cerdyn.

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn gynllun sy'n rhoi cymhelliant i bobl ifanc sydd am barhau mewn addysg ar ôl oedran gadael yr ysgol i gael arian am bresenoldeb da a chyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Bwriad yr arian hwn yw eu helpu gyda chostau sy'n ymwneud â'r cwrs megis teithio, llyfrau ac offer.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 20.** The Committee recommends that the current public transport system should be re-assessed against the needs of children and young people, alongside those of other users. If the re-assessment highlights systemic problems with public transport provision in Wales, then further steps should be taken by the Welsh Government to ensure that those issues are resolved. (Tudalen 61)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod gan blant a phobl ifanc anghenion gwahanol i ddefnyddwyr eraill, a dyna'r rheswm pam y bydd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus, sydd wrthi'n cael ei sefydlu, yn ymgysylltu â phobl ifanc. Mae holiadur yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith hwn i ganfod eu syniadau ar sut i wella trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Nod y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion strategol sy'n ymwneud â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru o safbwynt sydd wedi'i seilio ar

brofiadau ac anghenion y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Un o nodau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yw mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran dibynadwyedd, prydlondeb a safonau ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus.
Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw mynd i'r afael â'r rhain drwy weithio gyda'n partneriaid i annog mwy o bobl i fabwysiadu Partneriaethau Ansawdd Bysiau a chontractau Ansawdd; parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol yn effeithiol, sef £11.3 miliwn ar gyfer 2010/2011 (cynnydd o 4% mewn termau real o gymharu â'r flwyddyn flaenorol); a chefnogi gwasanaethau trafnidiaeth arloesol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn datblygu cynigion i wella ansawdd rhwydwaith bysiau pellter hir TrawsCambria.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 21.** The Committee recommends that the Welsh Government issues guidance to local governments to ensure that pupils are not excluded from extra curricular activities because of difficulties in securing transportation home at the end of the activity. (Tudalen 62)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Wrth ystyried canllawiau i'w dosbarthu i awdurdodau lleol ar y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried a oes angen canllawiau ychwanegol ar ddarparu trafnidiaeth ar ddiwedd gweithgareddau allgyrsiol.

Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol y disgresiwn i ddarparu trafnidiaeth ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol drwy ddarpariaeth gytundebol. Fodd bynnag, mae nifer o ystyriaethau ymarferol i'w hystyried megis maint bysiau, llwybrau a chost. Gall awdurdodau lleol hefyd newid amseroedd sesiynau yn yr ysgol pan fo gwneud hynny'n hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio neu'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau teithio.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn cynnig cwricwlwm eang a blaengar o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Bydd y Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn ystyried trafnidiaeth a mynediad ac yn ymateb i'r materion hynny.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 22.** The Welsh Government should ensure that all mainstream play opportunities are inclusive, although specialist play provision should also be made available to disabled children and young people who request it. When assessing the needs of carers for disabled children and young people, consideration should be given to any support a carer may need to enable disabled children to access

such play opportunities. (Tudalen 68)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Disgwylir i'r Safonau a'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol gynnwys adran ar ddarpariaeth a chyfleoedd chwarae sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac sy'n diwallu eu hanghenion, a bydd hynny'n cynnwys plant anabl. Cydnabyddir y gall fod angen cymorth ar blant a phobl ifanc anabl i fanteisio ar gyfleoedd chwarae ac y gall darpariaeth arbenigol fod yn rhan angenrheidiol o'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael. Bydd ymgysylltu ac ymgynghori â'r Grŵp Gorchwyl Hawliau ar Waith i Blant Anabl a rhanddeiliaid eraill yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r adran hon o'r Safonau a'r Canllawiau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 23.** The Committee recommends that the Welsh Government takes appropriate steps to ensure that the statutory obligations that require all new public buildings in Wales to be totally accessible are met, and that accessibility features are retrofitted to all public buildings where and when possible. (Tudalen 68)

**Ymateb: Derbyn**
Mae pwerau Rheoliadau Adeiladu yn deillio o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae Adran 91 (2) o Ddeddf Adeiladu 1984 yn cadarnhau mai swyddogaeth awdurdodau lleol yw gorfodi Rheoliadau Adeiladu yn eu hardaloedd yn amodol ar adrannau penodol o'r ddeddf sydd hefyd yn caniatáu i Archwilwyr Cymeradwy preifat (darparwr amgen ar wahân i adran Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol) gymeradwyo gwaith mewn perthynas â'r Rheoliadau Adeiladu.

O ran canllawiau mewn perthynas â gofynion Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladau cyhoeddus; byddai Dogfen Gymeradwy M o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 (Mynediad i Adeiladau a'u Defnyddio) yn ei gwneud yn ofynnol bod adeiladau newydd yn hygyrch. Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r adeilad, cylchrediad fertigol a llorweddol mewnol, mynediad i gyfleusterau a darpariaeth lanweithiol. Ceir amgylchiadau eraill lle y gallai adeilad fod yn destun gofynion Dogfen Gymeradwy M megis newid mewn defnydd adeilad i'w wneud yn adeilad cyhoeddus neu os gwneir addasiadau i adeilad cyhoeddus a gallai hyn, o bosibl, olygu newidiadau i'r gofynion hygyrchedd. Byddai hyn yn seiliedig ar raddau'r gwaith adeiladu a gynhelid.

Nid oes darpariaeth yn y Rheoliadau Adeiladu ar gyfer unrhyw fath o ôl-ffitiadau gorfodol. Felly mae ôl-ffitiadau yn wirfoddol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 24.** The Committee recommends that local authority pricing structures are changed to provide play and leisure opportunities free of charge where possible. Family tickets should also be made available with prices that reflect the number of adults, as well as the number of children in a family. (Tudalen 70)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw pennu lefel y costau sy'n ymwneud â darpariaeth chwarae a hamdden yn eu hardaloedd perthnasol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi'r cynllun Nofio am Ddim ac fel rhan o ymrwymiadau Cymru'n Un mae'r cynllun nofio am ddim i blant bellach wedi'i ymestyn i gynnwys darpariaeth ar y penwythnos, sydd bellach yn gwbl weithredol ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.

Diben un o'r 13 Nod Eang a geir yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru yw: "*Lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant, i'r graddau y mae'n angenrheidiol, i sicrhau lles plant".*

Fel rhan o'r cynllun gweithredu i roi'r strategaeth ar waith bwriedir parhau i gynnig mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel i weithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden; a monitro'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau Cymru, o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a chynllun cyflawni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol drwy ddysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol. Bydd hyn yn cynnwys argymhelliad bod y fethodoleg gwaith ieuenctid am ddim.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 25.** The Committee recommends that the Welsh Government considers the play needs of Gypsy Traveller children and young people in its Gypsy Traveller Strategy. The development of play development plans should be made with the participation on gypsy traveller children and young people, along with their parents. Furthermore, planning guidance issued in relation to Gypsy Traveller site development should include a mandatory obligation to provide play opportunities on each site. (Tudalen 71)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ystyried anghenion chwarae plant Sipsiwn a Theithwyr yn "Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru", a gyhoeddwyd yn 2009. Yn ogystal, mae'r strategaeth Sipsiwn a Theithwyr ddrafft,

sef "Ar Lwybr Arall", yn cynnwys adran ar y canllaw arfer da ar ddylunio safleoedd. Mae hyn yn cyfeirio at awgrymiadau o ran maint lleiniau, gofynion iechyd a diogelwch a meysydd chwarae. Nid oes unrhyw fwriad i dynnu'r cyfeiriad hwn o'r fersiwn terfynol o'r strategaeth.

O ran yr argymhelliad i osod rhwymedigaeth orfodol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar bob safle yn y canllawiau cynllunio, nid yw hynny'n ymarferol gan nad oes modd i ganllawiau cynllunio gynnwys rhwymedigaethau gorfodol o unrhyw fath.

Mae canllawiau cynllunio yn ddewisol ac ni ellir eu defnyddio i osod rhwymedigaeth orfodol. Byddai angen i unrhyw ofyniad i ddatblygwyr hwyluso'r gwaith o ddarparu tir hamdden ar y safle, a gaiff ei ddeddfu drwy'r system gynllunio, gael ei alluogi drwy'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chytundebau Adran 106. Ceir prawf ar gyfer y datblygiad galluogi hwn, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datblygiad yn angenrheidiol, yn berthnasol, ac yn dderbyniol o ran cynllunio. Bydd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol brofi, ar gyfer pob safle, beth bynnag fo'i faint, bod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol. Y datblygwr a fydd yn gyfrifol am ei ddarparu mewn gwirionedd hefyd. Mae'n golygu felly y byddai gweithredu'r cynllun yn rhoi baich ar ddatblygwyr y safle, sef fwy na thebyg y teithwyr eu hunain, i ddarparu'r arian ar gyfer datblygiad hamdden o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 26.** The Committee recommends that the Welsh Government should undertake a review of the role that both Community Focused Schools and all maintained schools play in supporting safe play and leisure opportunities with a view to maximizing the opportunities for safe places to play and hang out that schools can offer communities. The review should include consideration of issues relating to premises, finance, integration with local provision and good practice models with a view to maximising opportunities to share facilities. (Tudalen 74)

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym wrthi'n adolygu ein rhaglen addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae hynny'n cynnwys diffinio'n gliriach beth yw natur ysgolion bro. Mae gan ysgolion bro rôl i gefnogi cyfleoedd chwarae a hamdden diogel, ond ni fyddem yn cefnogi adolygiad annibynnol o'r agwedd honno ar addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r mater fel rhan o adolygiad cyfannol o sut y gallwn wella ffocws ysgolion ar y gymuned. Er mwyn i ysgolion sicrhau darpariaeth effeithiol i blant a phobl ifanc, mae angen cydnabod bod angen iddynt gydweithio ag ysgolion eraill, rhieni, y gymuned leol, partneriaid statudol a sefydliadau gwirfoddol, yn unol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol

**Casgliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r Adroddiad ar yr Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth o Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu, ac yn diolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am y gwaith o baratoi'r Adroddiad hwn a'r argymhellion, sy'n werthfawr ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym o'r farn bod chwarae yn werthfawr iawn ac yn cydnabod ei bwysigrwydd i fywydau plant a phobl ifanc yn ein cymdeithas. Rydym yn gweithio i greu Cymru sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc, ac sy'n sicrhau hawliau pobl ifanc i chwarae a mwynhau cyfleoedd hamdden. Rydym yn gweithio gyda phob rhanddeiliad i ddatblygu polisi a dulliau gweithredu sy'n addas i'r diben er mwyn cyflawni hyn ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Adroddiad at y gwaith hwn.